

# Nodiadau

ar gyfer pecyn cais Lwfans Gofalwr

**Os ydych yn gofalu am rywun  
arall sy'n cael**

- **Lwfans Byw i'r Anabl**
  - **Lwfans Gweini, neu**
  - **Lwfans Gweini Cyson**
- efallai y gallwch gael Lwfans  
Gofalwr**

---

Gallwch wneud cais am Lwfans Gofalwr  
neu ddweud wrthym am newid mewn  
amgylchiadau ar-lein yn  
[www.direct.gov.uk/carers](http://www.direct.gov.uk/carers)

# Cynnwys

| Teitl  | Tudalen |
|--|---------|
| A allaf gael Lwfans Gofalwr?                                     | 3       |
| Beth yw Lwfans Gofalwr?  | 4       |
| Pwy na all gael Lwfans Gofalwr?                                  | 5       |
| Pryd i wneud cais am Lwfans Gofalwr                              | 6       |
| Sut i wneud cais am Lwfans Gofalwr                               | 7       |
| Sut i gysylltu â'r Uned Lwfans Gofalwr                           | 7       |
| Beth fydd yn digwydd ar ôl i ni gael eich cais?                  | 8       |
| Beth arall gallaf wneud cais amdano?                             | 9       |
| Credyd Treth Plant   | 9       |
| A fydd Lwfans Gofalwr yn effeithio ar fudd-daliadau eraill a gaf | 10      |
| Lwfans Gofalwr a budd-daliadau eraill                            | 11      |
| Arian ychwanegol ar ben eich Lwfans Gofalwr                      | 12      |
| Rhagor o wybodaeth am Lwfans Gofalwr                             | 13      |
| Os na allwch gael Lwfans Gofalwr                                 | 14      |
| Ble i gael help a chyngor  | 15      |

---

## Prawf adnabod

Er mwyn eich cysylltu â'r cyfrif Yswiriant Gwladol (YG) cywir a chadw'r cyfrif hwnnw'n ddiogel, bydd angen prawf o bwy ydych arnom ynghyd â'r wybodaeth gywir gennych chi. Nid yw cerdyn rhif YG yn unig yn profi pwy ydych. Eich cyfrifoldeb chi yw rhoi'r wybodaeth gywir i ni er mwyn eich cysylltu â'r cyfrif cywir.

## A allaf gael Lwfans Gofalwr?

Defnyddiwch y rhestr wirio gyflym hon cyn i chi lenwi'r ffurflen.

Os gallwch dicio pob un o'r 4 datganiad, efallai y gallwch gael Lwfans Gofalwr.

**Rwy'n 16 oed neu'n hŷn**

**Rwy'n gofalu am berson anabl am o leiaf 35 awr yr wythnos.**

**Mae'r person rwy'n gofalu amdano yn cael un o'r budd-daliadau hyn.**

- Cyfradd ganol neu uchaf elfen ofal Lwfans Byw i'r Anabl.  
*Nodwch nad yw'r elfen symudedd yn fudd-dal cymhwyso ar gyfer Lwfans Gofalwr*
- Lwfans Gweini
- Lwfans Gweini Cyson ar y cyfraddau canlynol neu uwch
  - y gyfradd uchaf arferol, fel ychwanegiad at Fudd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol, neu
  - y gyfradd sylfaenol diwrnod llawn fel ychwanegiad at Bensiwn Anabledd Rhyfel.

**Rwy'n byw ym Mhrydain Fawr fel arfer.**

*Ystyr Prydain Fawr yw Cymru, Lloegr a'r Alban.*

Dylech hefyd dicio os ydych yn rhan o deulu sy'n byw dramor gyda Lluoedd EM.

- Os nad ydych wedi ticio pob un o'r 4 datganiad, ni allwch gael Lwfans Gofalwr ym Mhrydain Fawr.
- Os ydych wedi ticio'r 3 datganiad cyntaf a'ch bod fel arfer yn byw y tu allan i Brydain Fawr ond o fewn yr Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) neu yn y Swistir, llenwch y ffurflen gais oherwydd efallai y gallwch gael Lwfans Gofalwr. Gweler y datganiad isod. Am ragor o wybodaeth ffoniwch ni ar **01253 856 123**.

Os ydych fel arfer yn byw y tu allan i Brydain Fawr ond o fewn yr AEE neu yn y Swistir, efallai na fydd rhywfaint o'r wybodaeth yn y nodiadau hyn yn berthnasol i chi. Efallai y bydd angen gwybodaeth ychwanegol arnom a byddwn yn cysylltu â chi am hyn. Yna gallwn roi gwybodaeth sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau.

## Beth yw Lwfans Gofalwr?

Mae Lwfans Gofalwyr yn fudd-dal i helpu pobl sy'n gofalu am rywun sy'n cael

- Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd **ganol** neu'r gyfradd uchaf o'r **elfen ofal**, neu
- Lwfans Gweini, neu
- Lwfans Gweini Cyson ar y cyfraddau canlynol neu uwch
  - **y gyfradd uchaf arferol gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol,**
  - **y gyfradd sylfaenol diwrnod llawn gyda Phensiwn Anabledd Rhyfel.**

Os yw'r person rydych yn gofalu amdano yn cael un o'r budd-daliadau hyn, byddant yn cael llythyr yn nodi'r gyfradd a gânt.

**Telir Lwfans Gofalwr i'r person sy'n gwneud y gofalu – nid y person sy'n cael gofal.**

Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth ar eich Lwfans Gofalwr.

£50.55 yw cyfradd wythnosol gyfredol Lwfans Gofalwr.

Nid yw Lwfans Gofalwr yn dibynnu ar

- lefel eich cynilion, neu
- a ydych wedi talu unrhyw gyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG).

Os yw'r person rydych yn gofalu amdano yn cael unrhyw rai o'r budd-daliadau a restrir isod

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth
- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai
- Budd-dal Treth Cyngor,

efallai eu bod yn cael arian ychwanegol fel rhan o'u budd-dal am fod ganddynt anabledd difrifol.

Gelwir yr arian ychwanegol hwn yn *bremiwm anabledd difrifol* neu'n *ychwanegiad ar gyfer anabledd difrifol*.

Os telir Lwfans Gofalwr i chi am ofalu amdanynt, daw'r arian ychwanegol hwn i ben, ac efallai y byddant yn cael llai o arian. Os mai hawl sylfaenol yn unig sydd gennych i gael Lwfans Gofalwr ac nad ydych yn ei gael mewn gwirionedd, ni fydd hyn yn effeithio ar fudd-daliadau'r person rydych yn gofalu amdano.

Ystyr *hawl sylfaenol* yw bod gennych hawl i gael Lwfans Gofalwr ond na chaiff ei dalu am eich bod yn cael budd-dal neu hawliad arall sydd gymaint neu'n fwy na Lwfans Gofalwr.

Ni all y person rydych yn gofalu amdano gael Premiwm Anabledd Difrifol os ydych yn cael Lwfans Gofalwr. Gweler **tudalen 7** o'r nodiadau hyn i weld lle i gael cyngor am hyn.

.

## **Pwy na all gael Lwfans Gofalwr**

Ni allwch gael Lwfans Gofalwr os ydych

- yn ennill mwy na £95 yr wythnos, ar ôl i ni ddidynnu arian ar gyfer treuliau. Gweler isod am ragor o fanylion
- ar gwrs addysg llawn amser
- ar wyliau yn ystod cwrs addysg llawn amser
- yn destun rheolaeth fewnfudo, ond ceir rhai eithriadau i hyn. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â ni ar **01253 856 123**.

### **Enillion**

Nid yw arian a gewch o bensiynau preifat neu alwedigaethol yn cyfrif fel enillion.

Er mwyn cael Lwfans Gofalwr, mae'n rhaid i'ch enillion fod yn £95 yr wythnos neu lai ar ôl i ni ddidynnu treuliau a ganiateir.

Gallwn ddidynnu'r taliadau canlynol o'ch enillion

- rhai cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG)
- treth incwm
- hanner unrhyw arian a dalwch tuag at gynlluniau pensiwn personol neu alwedigaethol.

Gelwir yr arian sy'n weddill ar ôl i ni ddidynnu'r taliadau hyn yn *enillion* net.

### **Treuliau a ganiateir**

Dyma'r treuliau a ganiateir

- treuliau y mae'n rhaid i chi eu talu am eu bod yn angenrheidiol i'ch swydd
- y gost o dalu rhywun arall i ofalu am
  - blant, neu
  - y person rydych yn gofalu amdano tra byddwch yn gweithio. Ni fyddwn yn caniatáu'r draul hon os yw'r person rydych yn ei dalu yn berthynas agos. Caniatawn hyd at hanner eich enillion net.

### **Os ydych yn ennill mwy na £95 yr wythnos**

Os ydych yn ennill mwy na £95 yr wythnos, ar ôl i ni ddidynnu arian ar gyfer treuliau, ni allwch gael Lwfans Gofalwr. Mae'r cyfnod na allwch gael Lwfans Gofalwr yn dibynnu ar ba mor aml y caiff eich enillion eu talu. Er enghraifft, os cewch eich talu'n fisol ni fydd hawl gennych ar gyfer y mis dilynol. Os cewch eich talu'n wythnosol ni fydd hawl gennych ar gyfer yr wythnos ddilynol.

### **Addysg llawn amser**

Ystyr addysg llawn amser yw 21 awr neu fwy o astudio wedi'i oruchwylio bob wythnos, mewn ysgol, coleg, prifysgol neu sefydliad addysgol tebyg. Mae hyn yn cynnwys amser a dreulir ar ymarferion, arbrofion, prosiectau neu arholiadau cysylltiedig. Nid oes rhaid i diwtor fod yn bresennol yn yr astudio.

## **Pwy na all gael Lwfans Gofalwr** parhad

### **Mathau eraill o help sydd ar gael**

P'un a allwch gael Lwfans Gofalwr neu beidio, efallai bod help arall y gallwch chi neu'r person rydych yn gofalu amdano ei gael. I gael rhagor o wybodaeth, gweler **tudalennau 11, 12, 15 a 16**.

## **Pryd i wneud cais am Lwfans Gofalwr**

Gwnewch gais nawr os ydych yn gofalu am rywun sy'n cael un o'r canlynol neu sydd wedi cael un o'r canlynol yn ddiweddar

- Lwfans Byw i'r Anabl ar y gyfradd **ganol** neu'r **gyfradd uchaf** o'r **elfen ofal**, neu
- Lwfans Gweini, neu
- Lwfans Gweini Cyson ar y cyfraddau canlynol neu uwch
  - **y gyfradd uchaf arferol gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol,**
  - **y gyfradd sylfaenol diwrnod llawn gyda Phensiwn Anabledd Rhyfel.**

**Peidiwch ag oedi, neu gallech golli budd-dal.**

Gwnewch gais yn hwyrach os ydych yn gofalu am rywun

- sydd ddim wedi gwneud cais am un o'r budd-daliadau uchod eto, neu
- sydd wedi gwneud cais ond yn dal i aros am benderfyniad.

Mae'n rhaid i'r person rydych yn gofalu amdano wneud cais am Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini neu Lwfans Gweini Cyson ar unwaith. Gweler y rhestr uchod. Os ydynt eisoes yn cael un o'r budd-daliadau hyn mae'n rhaid i chi wneud cais am Lwfans Gofalwr ar unwaith. Peidiwch ag oedi. Os na fyddwch yn gwneud cais o fewn 3 mis i'r dyddiad y bydd y person rydych yn gofalu amdano yn dechrau cael Lwfans Byw i'r Anabl, Lwfans Gweini neu Lwfans Gweini Cyson, byddwch yn colli budd-dal.

Mae cael Lwfans Gofalwr yn golygu y gallech gael

- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm
- Cymhorthdal Incwm
- Credyd Pensiwn
- Budd-dal Tai, neu
- Budd-dal Treth Cyngor.

Gallwch hawlio'r budd-daliadau neu'r hawliadau hyn ar yr un pryd â Lwfans Gofalwr. I gael rhagor o wybodaeth gweler **tudalen 10**.

## Sut i wneud cais am Lwfans Gofalwr

Cwblhewch y ffurflen gais. Er y gallai ymddangos yn hir, peidiwch â digalonni. Ni fydd yn cymryd cyn hired ag y credwch i'w llenwi ac efallai na fydd yn rhaid i chi ateb pob cwestiwn.

Os mai'ch ateb i gwestiwn fydd **Na**, mae'n rhaid i chi dicio'r blwch **Na**. Bydd hyn yn ein helpu i ddelio â'ch cais yn fwy cyflym.

Os byddwch yn cael unrhyw broblemau wrth gwblhau'r ffurflen gais gall rhywun arall ei wneud ar eich rhan. Gallwch ofyn i ffrind, canolfan gynghori, y Ganolfan Byd Gwaith neu'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau. Gallwch ffonio'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau ar **0800 88 22 00**.

Mae'n rhaid i chi lofnodi'r datganiad ar y ffurflen gais hon ar ôl sicrhau bod **yr hyn rydych wedi'i ddweud wrthym** ar y ffurflen yn gyflawn ac yn gywir.

Gallwch bellach wneud cais am Lwfans Gofalwr neu ddweud wrthym am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau ar-lein gan ddefnyddio ein ffurflen cam wrth gam syml. I gael rhagor o wybodaeth ewch i [www.direct.gov.uk/carers](http://www.direct.gov.uk/carers)

## Sut i gysylltu â'r Uned Lwfans Gofalwr

Ein rhif ffôn yw **01253 856 123**.

Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **01772 562202**.

Gallwch ddefnyddio'r rhagddodiad typetalk **18001** hefyd.

Mae'r llinellau hyn ar agor rhwng 9.00am a 5.00pm, o ddydd Llun i ddydd Iau, a rhwng 9.00am a 4.30pm ar ddydd Gwener.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Lwfans Gofalwr a gwasanaethau cysylltiedig ar ein gwefan. Y cyfeiriad yw [www.direct.gov.uk/carers](http://www.direct.gov.uk/carers)

Neu gallwch anfon e-bost atom i [cau.customer-services@dwp.gsi.gov.uk](mailto:cau.customer-services@dwp.gsi.gov.uk)

Gallwch ddefnyddio'r rhyngrwyd mewn llawer o lyfrgelloedd lleol.

Os hoffech ysgrifennu atom, ein cyfeiriad yw

**Carer's Allowance Unit**

**Palatine House**

**Lancaster Road**

**Preston PR1 1HB.**

Rhowch wybod i ni

- os ydych am i ni ddefnyddio braille, caset sain, CD neu brint bras, neu
- os nad Cymraeg neu Saesneg yw eich iaith gyntaf a hoffech gael gwybodaeth am ein gwasanaeth cyfieithu.

## Beth fydd yn digwydd ar ôl i ni gael eich cais?

Lle y gallwn, byddwn yn eich ffonio os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom. Byddwn yn ysgrifennu atoch i ddweud wrthy ch a allwch gael Lwfans Gofalwr. Ddydd Llun yw'r diwrnod talu arferol ar gyfer Lwfans Gofalwr.

Dylech aros 3 wythnos cyn disgwyl clywed gennym gyda phenderfyniad ar eich cais. Ni fyddwn yn dweud wrthy ch ein bod wedi cael eich ffurflen gais. Ein nod yw delio â'ch cais o fewn 3 wythnos. Bydd o gymorth i ni os na fyddwch yn cysylltu â ni tan ar ôl 3 wythnos.

Gall eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol gynnig Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith i chi gydag ymgynghorydd personol. Nid oes angen i chi fynd i'r cyfweliad ar gyfer eich cais am Lwfans Gofalwr. Ond, gall eich helpu i gael cyngor am gyflogaeth neu hyfforddiant rhan amser. Mae'r help ar gael, naill ai nawr, neu'n ddiweddarach os bydd eich cyfrifoldebau gofalu yn newid.

Os hoffech

- drafod a allai Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith fod yn addas i chi, neu
- trefnu cyfweliad

cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith

Mae rhif ffôn a chyfeiriad y Ganolfan Byd Gwaith yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan **Jobcentre Plus**.

Os ydych yn gwneud cais am Gymhorthdal Incwm, Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth bydd angen i chi gael Cyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith fel rhan o'ch cais am y budd-daliadau hynny. Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn cysylltu â chi os bydd angen i chi fynd i Gyfweliad sy'n Canolbwyntio ar Waith.

### **Os nad ydych yn fodlon ar ein gwasanaeth a'ch bod am wneud cwyn**

Os nad ydych yn fodlon ar ein gwasanaeth a'ch bod yn dymuno gwneud cwyn neu sylw, gallwch gysylltu â ni dros y ffôn, neu e-bost gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a restrir ar **dudalen 7**.

Byddwn yn ceisio ateb eich cwyn o fewn 7 diwrnod gwaith i'w derbyn. Os na fyddwn yn gallu ateb eich cwyn o fewn yr amser hwn, byddwn yn esbonio pam i chi. Byddwn hefyd yn dweud wrthy ch pryd y cewch ateb llawn.

## Beth arall gallaf wneud cais amdano?

### Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a Chredyd Pensiwn

Os ydych am wneud cais am Gredyd Pensiwn, neu os hoffech gael cyngor a gwybodaeth gyffredinol, cysylltwch â'r swyddfa sy'n delio â'ch budd-dal neu hawl, neu'r Canolfan Cyngor ar Bopeth.

I gael rhagor o wybodaeth am Gymhorthdal Incwm, gofynnwch am daflen am Gymhorthdal Incwm yn y Ganolfan Byd Gwaith. Neu ewch i wefan y Ganolfan Byd Gwaith yn [www.canolfanbydgwaith.gov.uk](http://www.canolfanbydgwaith.gov.uk)

Os hoffech gael gwybod am Gredyd Pensiwn, neu wneud cais amdano, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn.

Am ragor o wybodaeth am Gredyd Pensiwn gofynnwch am daflenni am Gredyd Pensiwn gan y Ganolfan Byd Gwaith neu'ch Canolfan Pensiwn. Neu ewch i wefan Y Gwasanaeth Pensiwn yn [www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk](http://www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk)

## Credyd Treth Plant

Efallai y gallech wneud cais am Gredyd Treth Plant. Taliad i gefnogi teuluoedd â phlant yw hwn. Gellir ei hawlio gan bobl sy'n gyfrifol am un plentyn neu berson ifanc neu fwy.

I gael rhagor o wybodaeth am Gredyd Treth Plant, ewch i wefan Cyllid a Thollau EM. Y cyfeiriad yw [www.hmrc.gov.uk](http://www.hmrc.gov.uk) Gallwch wneud cais ar-lein hefyd.

Gallwch hefyd ffonio llinell gymorth Cyllid a Thollau EM ar

- **0845 300 3900** os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, neu

- **0845 603 2000** os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon.

Os oes gennych anawsterau lleferydd neu glyw gallwch gysylltu â Chyllid a Thollau EM drwy ddefnyddio ffôn testun ar

- **0845 300 3909** os ydych yn byw yng Nghymru, Lloegr neu'r Alban, or

- **0845 607 6078** os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon.

Mae'r llinellau ar agor rhwng 8am ac 8pm, 7 diwrnod yr wythnos. Mae'r llinellau ar gau ar Ddydd Nadolig, Gŵyl San Steffan, Dydd Calan a Sul y Pasg.

## A fydd Lwfans Gofalwr yn effeithio ar fudd-daliadau eraill a gaf?

Hyd yn oed os ydych chi neu'ch partner yn cael budd-daliadau neu hawliadau eraill, dylech wneud cais am Lwfans Gofalwr.

Os ydych yn cael Lwfans Gofalwr neu os oes gennych hawl sylfaenol i Lwfans Gofalwr, ychwanegir swm ychwanegol pan fyddwn yn cyfrifo

- Credyd Pensiwn, a elwir yn swm ychwanegol am ofalu
- Lwfans Ceisio Gwaith, a elwir yn Breimiwm Gofalwr,
- Cymhorthdal Incwm, a elwir yn Breimiwm Gofalwr a
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm, a elwir yn Breimiwm Gofalwr.

Ystyr *hawl sylfaenol* yw bod gennych hawl i gael Lwfans Gofalwr ond na chaiff ei dalu am eich bod yn cael budd-dal neu hawliad arall sydd gymaint neu'n fwy na Lwfans Gofalwr.

Ceir rhestr o fudd-daliadau a hawliadau ar **dudalen 11**.

**£27.75** yw cyfradd wythnosol bresennol Premiwm Gofalwr.

Byddwn yn dweud wrth y swyddfa sy'n talu eich Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gredyd Pensiwn eich bod yn cael Lwfans Gofalwr neu fod gennych hawl sylfaenol.

Os ydych yn cael Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor ar ei ben ei hun neu gydag unrhyw rai o'r budd-daliadau neu hawliadau a restrir ar **dudalen 11**, dylech wneud cais am Lwfans Gofalwr. Bydd y cyngor lleol yn cynnwys swm ar gyfer y Premiwm Gofalwr wrth gyfrifo faint o Fudd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor y gallwch ei gael.

Er mwyn cael help ychwanegol mae'n rhaid i chi ddweud wrth y swyddfa sy'n talu eich Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor eich bod yn cael Lwfans Gofalwr. Er enghraifft, dylech ddweud wrthynt fel y gallant gynnwys y Premiwm Gofalwr pan fyddant yn cyfrifo eich budd-dal. Mae angen i chi hefyd ddweud wrth eich cyngor lleol os oes gennych hawl sylfaenol i Lwfans Gofalwr.

Os oes rhywun yn cael arian ychwanegol ar eich cyfer gyda'u budd-dal, bydd yr arian ychwanegol hwn yn dod i ben neu'n lleihau os cewch Lwfans Gofalwr.

### Os byddwch yn oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth

Gelwir oedi cyn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth yn *Gohirio Pensiwn y Wladwriaeth* hefyd. Os oes gennych hawl i gael Lwfans Gofalwr, ni fydd unrhyw ddyddiau y cewch Lwfans Gofalwr yn cyfrif tuag at Bensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad y gallech ei gael pan fyddwch yn gwneud cais am eich Pensiwn y Wladwriaeth. Gweler **tudalen 12** i gael rhagor o wybodaeth am sut y gallai effeithio ar eich partner.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am effaith cael Lwfans Gofalwr tra byddwch yn gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn neu gofynnwch am eu canllaw manwl ar ohirio. Gallwch gael copi o'r daflen ar y wefan. Y cyfeiriad yw [www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk](http://www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk)

## Lwfans Gofalwr a budd-daliadau eraill

Os cewch unrhyw rai o'r budd-daliadau a ddangosir isod gallai effeithio ar p'un a fyddwn yn talu eich Lwfans Gofalwr

- Pensiwn y Wladwriaeth
- Budd-dal Analluogrwydd
- Lwfans Anabledd Difrifol
- Lwfans hyfforddi
- Atodiad i'r Anghyflogadwy – a delir gyda Budd-dal Anabledd Anafiadau Diwydiannol neu Bensiwn Rhyfel
- Pensiwn Gwraig Weddw neu Lwfans Profedigaeth
- Lwfans Mam Weddw neu Lwfans Rhiant Gwedd
- Pensiwn Rhyfel Gwraig Weddw neu Bensiwn Rhyfel Gŵr Gwedd
- Lwfans Mamolaeth
- Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol
- Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar gyfraniadau
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar gyfraniadau.

Os na fyddwn yn talu Lwfans Gofalwr i chi am eich bod yn cael un o'r budd-daliadau hyn, efallai y gallwch gael arian ychwanegol o hyd. Gall yr arian ychwanegol gael ei adio at eich Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth, Credyd Pensiwn, Budd-dal Tai neu Fudd-dal Treth Cyngor. Gweler **tudalen 10** am fanylion

Os yw swm y budd-dal a gewch yn llai na swm y Lwfans Gofalwr y gallech ei gael, byddwn yn talu'r gwahaniaeth.

Os oes rhywun yn cael unrhyw rai o'r budd-daliadau a ddangosir uchod a allai gynnwys arian ychwanegol i chi, byddwn yn trefnu i'r arian ychwanegol ddod i ben neu leihau. Yna byddwn yn talu'r Lwfans Gofalwr i chi.

Os cewch Fudd-dal Gwraig Weddw neu Fudd-daliadau Profedigaeth, gwnewch gais am Lwfans Gofalwr beth bynnag. Efallai y gallwch gael cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG). Gallwch gael rhagor o wybodaeth am gyfraniadau YG ar **dudalen 13** o'r nodiadau hyn.

## Arian ychwanegol ar ben eich Lwfans Gofalwr

Mae'n bosibl y gallwch gael arian ychwanegol ar ben ein Lwfans Gofalwr ar gyfer oedolyn dibynnol sy'n byw gyda chi sydd

- yn ŵr, gwraig neu bartner sifil i chi
- yn rhywun arall sy'n gofalu am blentyn neu blant rydych chi neu'ch partner yn cael Budd-dal Plant ar ei gyfer/ar eu cyfer.

Os

- rydych yn cael arian ychwanegol ar ben eich Lwfans Gofalwr ar gyfer oedolyn dibynnol, ac
- mae rhywun arall eisoes yn cael arian ychwanegol ar ben ei fudd-dal ar gyfer oedolyn dibynnol

gall y person sydd eisoes yn cael arian ychwanegol golli rhywfaint o'i fudd-dal.

Os

- rydych chi neu'ch partner yn cael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn seiliedig ar incwm neu Gredyd Pensiwn, ac
- nid ydych yn gwneud cais am yr holl arian ychwanegol y gallwch ei gael gyda Lwfans Gofalwr,

gallai swm y Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Gredyd Pensiwn a gewch newid.

I gael gwybod ble i gael cyngor ar hyn, gweler **tudalen 15** o'r nodiadau hyn. I wneud cais am arian ychwanegol, llenwch y ffurflen gais a'r ffurflen **Arian ychwanegol ar gyfer oedolyn dibynnol**.

### Yr arian ychwanegol ar gyfer oedolyn dibynnol yw £30.20

Os byddwch yn gwneud cais am arian ychwanegol ar gyfer oedolyn dibynnol bydd yn rhaid i ni hefyd gadarnhau ei gyfrif Yswiriant Gwladol a chadarnhau pwy ydyw. Mae hyn yn golygu y bydd angen i chi roi'r wybodaeth gywir i ni fel y gallwn wneud hyn. Os byddwch yn gwneud cais am arian ychwanegol ond na fyddwch yn rhoi'r wybodaeth gywir i ni, gall eich cais eich hun am fudd-dal gael ei oedi neu ei wrthod.

Os ydych yn cael arian ychwanegol gyda Lwfans Gofalwr ar gyfer eich gŵr, eich gwraig neu'ch partner sifil a'u bod wedi oedi cyn gwneud cais am eu Pensiwn y Wladwriaeth, ni fydd unrhyw ddiwrnodau y cewch y swm ychwanegol hwn ar eu cyfer yn cyfrif tuag at unrhyw Bensiwn y Wladwriaeth ychwanegol neu gyfandaliad y gallent ei gael pan fyddant yn gwneud cais am eu Pensiwn y Wladwriaeth.

Gelwir oedi cyn gwneud cais yn *Gohirio Pensiwn y Wladwriaeth* hefyd.

Os oes gan y naill neu'r llall ohonoch unrhyw gwestiynau am effaith cael Lwfans Gofalwr tra byddwch yn gohirio eich Pensiwn y Wladwriaeth, cysylltwch â'r Gwasanaeth Pensiwn neu gofynnwch am eu canllaw manwl ar ohirio. Gallwch gael copi o'r daflen ar y wefan. Y cyfeiriad yw

[www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk](http://www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk)

# Rhagor o wybodaeth am Lwfans Gofalwr

## Bonws Nadolig

Cewch fonws di-dreth gyda'ch Lwfans Gofalwr yn fuan cyn y Nadolig bob blwyddyn. Galwn y bonws di-dreth hwn yn Fonws Nadolig. Dim ond os nad ydych yn cael Bonws Nadolig gyda budd-dal arall y cewch Fonws Nadolig gyda'ch Lwfans Gofalwr.

## Cyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG)

Ar gyfer pob wythnos rydym yn talu Lwfans Gofalwr i chi byddwch fel arfer yn cael cyfraniad Yswiriant Gwladol (YG) wedi'i ychwanegu at eich cofnod YG. Fel arfer cewch hefyd gyfraniad YG ar gyfer unrhyw wythnos

- y mae gennych hawl i gael Lwfans Gofalwr, ac
- nad ydym yn eich talu, am eich bod hefyd yn cael Budd-dal Gwraig Weddw neu Fudd-daliadau Profedigaeth ar yr un gyfradd wythnosol â'ch Lwfans Gofalwr neu gyfradd uwch.

Gall y cyfraniadau YG hyn eich helpu i gael budd-daliadau neu hawliadau eraill ar y gyfradd sylfaenol yn y dyfodol. Ni chewch gyfraniad YG gyda'ch Lwfans Gofalwr os ydych eisoes yn cael cyfraniadau YG gyda budd-dal arall. Er enghraifft, efallai eich bod yn cael cyfraniadau YG gyda'ch Budd-dal Analluogrwydd neu Lwfans Cyflogaeth a Chymorth.

Os ydych yn wraig briod, ni allwn roi cyfraniadau YG i chi os ydych yn talu cyfraniadau YG ar y gyfradd ostyngol.

Ni chewch gyfraniadau YG yn y flwyddyn dreth y byddwch

- yn cyrraedd 60 oed os ydych yn ferch, neu
- yn cyrraedd 65 oed os ydych yn ddyn.

## Ail Bensiwn y Wladwriaeth

Ar gyfer pob blwyddyn dreth lawn y byddwn yn talu Lwfans Gofalwr i chi byddwch yn cronni pensiwn ychwanegol yn awtomatig a elwir yn Ail Bensiwn y Wladwriaeth, a elwir weithiau yn pensiwn ychwanegol. Os na fyddwn yn talu eich Lwfans Gofalwr am eich bod yn cael budd-daliadau neu hawliadau eraill ar yr un gyfradd wythnosol neu uwch, byddwch yn cronni Ail Bensiwn y Wladwriaeth o hyd. Telir y pensiwn ychwanegol gyda'ch Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth.

## Rhagor o wybodaeth am Lwfans Gofalwr parhad

### Os oes rhywun arall hefyd yn gofalu am yr un person

Os oes rhywun arall hefyd yn gofalu am yr un person â chi, dim ond un ohonoch all gael Lwfans Gofalwr. Mae'n rhaid i chi benderfynu rhyngoch pwy sy'n mynd i wneud cais amdano. Gweler **tudalen 15** i gael gwybod ble i gael help a chynghor.

### Os ydych yn gofalu am fwy nag un person

Dim ond unwaith yr wythnos y byddwn yn talu Lwfans Gofalwr i chi hyd yn oed os ydych yn gofalu am fwy nag un person.

### Yr amser rydych yn ei dreulio yn gofalu am rywun

Os byddwch yn rhoi'r gorau i ofalu am y person yn eich gofal, am gyfnod byr, efallai y gallwch gael Lwfans Gofalwr o hyd.

Er enghraifft, efallai y gallwch gael Lwfans Gofalwr

- os bydd y person rydych yn gofalu amdano yn mynd i'r ysbyty neu rhywle tebyg
- os byddwch chi'n mynd i'r ysbyty neu rywle tebyg.

Ond mae'n rhaid i chi ddweud wrthym ar unwaith am unrhyw wythnos pan fyddwch yn gofalu am rywun am lai na 35 awr.

Mae wythnos o ddechrau dydd Sul tan ddiwedd y dydd Sadwrn nesaf.

## Os na allwch gael Lwfans Gofalwr

Efallai y gallwch gael help gan y Cynllun Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref os na allwch gael Lwfans Gofalwr, a'ch bod yn gofalu am rywun sy'n cael

- Lwfans Byw i'r Anabl, neu
- Lwfans Gweini, neu
- Lwfans Gweini Cyson.

Mae'r Cynllun Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref yn gwneud yn siŵr na fydd pobl yn cael llai o Bensiwn y Wladwriaeth yn y dyfodol am eu bod yn aros gartref i ofalu am rywun.

Gofynnwch am ffurflen **CF411W Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref**. Gallwch gael y ffurflen hon o'r Ganolfan Byd Gwaith. Mae taflen **DHC1JPW Canllaw i bobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd, a gofalwyr** hefyd yn rhoi manylion am help arall sydd ar gael i ofalwyr.

Efallai y gallwch hefyd gronni Ail Bensiwn y Wladwriaeth, a elwir weithiau yn bensiwn ychwanegol, os gallwch gael Diogelwch Cyfrifoldebau Cartref. Telir Ail Bensiwn y Wladwriaeth gyda'ch Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth pan fyddwch yn cyrraedd oedran pensiwn y wladwriaeth.

## Ble i gael help a chyngor

- Os hoffech gael cyngor a gwybodaeth gyffredinol am fudd-daliadau neu hawliadau, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Gallwch ddod o hyd i'r rhif ffôn a'r cyfeiriad yn adran rhifau busnes y llyfr ffôn. Edrychwch o dan Jobcentre Plus. Gallwch gael rhagor o wybodaeth a ffurflenni cais ar-lein yn **[www.canolfanbydgywaith.co.uk](http://www.canolfanbydgywaith.co.uk)**
- Os hoffech gael gwybodaeth am Gredyd Pensiwn, gallwch ffonio'r Gwasanaeth Pensiwn. Y rhif ffôn yw **0845 60 60 275**. Neu ewch i wefan Y Gwasanaeth Pensiwn yn **[www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk](http://www.ygwasanaethpensiwn.gov.uk)**
- Os hoffech wybod am fudd-daliadau neu hawliadau ar gyfer pobl ag anabledau, ffoniwch y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau. Y rhif ffôn yw Rhadffon **0800 88 22 00**.  
Ni fydd gan y person y byddwch yn siarad ag ef eich cofnodion felly dim ond cyngor cyffredinol y gallant ei roi i chi.  
Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu eich clyw gallwch gysylltu â'r Llinell Ymholiadau Budd-daliadau drwy ddefnyddio ffôn testun ar Rhadffon **0800 24 33 55**.  
Gallwch hefyd gael help mewn canolfan gynghori fel y Ganolfan Cyngor ar Bopeth.
- Gallwch hefyd gysylltu â  
**Carers UK**  
**20 Great Dover Street**  
**London**  
**SE1 4LX**  
Gallant gynnig cyngor ar amrywiaeth o faterion am ofalwyr. Rhif y llinell gymorth yw Rhadffon **0808 808 7777**.  
Mae'r llinellau ar agor rhwng 10am a 12 canol dydd a rhwng 2pm a 4pm ar ddydd Mercher a dydd Iau yn unig.  
Peidiwch ag anfon eich ffurflen gais i'r cyfeiriad hwn.  
Anfonwch hi i'r cyfeiriad ar **dudalen 7**. Neu gallwch fynd i wefan Carers UK yn **[www.carersuk.org](http://www.carersuk.org)**
- Os hoffech gael gwybodaeth am gymorth ariannol, hawliau, cyflogaeth, byw'n annibynnol a llawer mwy, ewch i **[www.direct.gov.uk](http://www.direct.gov.uk)**

## **Ble i gael help a chynghor** parhad

### **Os bydd angen help arnoch i gwblhau'r ffurflenni hyn**

Os bydd angen help arnoch i gwblhau'r ffurflenni hyn, ffoniwch **0800 88 22 00**. Bydd y person y byddwch yn siarad â hwy yn trefnu i rywun eich ffonio'n ôl. Bydd y person a fydd yn eich ffonio'n ôl wedi cael ei hyfforddi'n arbennig i'ch helpu i lenwi'r ffurflenni hyn. Bydd ganddo gopi o'r ffurflenni a bydd yn mynd drwyddynt gyda chi dros y ffôn. Neu gall lenwi'r ffurflenni ar eich rhan.

Os bydd yn llenwi'r ffurflenni ar eich rhan, bydd yn eu hanfon atoch. Yna gallwch ddarllen dros y ffurflenni, eu llofnodi a'u hanfon yn ôl. Gall anfon y ffurflenni wedi'u cwblhau mewn print bras. Bydd yn anfon amlen atoch. Nid oes angen stamp arni. Anfonwch y dogfennau rydym yn gofyn i chi amdanynt gyda'r ffurflenni.

### **Cadwch y nodiadau hyn er gwybodaeth**

Dim ond gwybodaeth gyffredinol y bydd y nodiadau yn ei rhoi i chi ac nid ydynt yn ddatganiad cyflawn o'r gyfraith.

# Lwfans Gofalwr

## Ffurflen gais

- Defnyddiwch y ffurflen hon i wneud cais am Lwfans Gofalwr.
- Darllenwch y Nodiadau a ddaeth gyda'r pecyn cais hwn cyn i chi lenwi'r ffurflen.
- Mae'n rhaid i chi, y gofalwr, gwblhau'r ffurflen ac nid y person rydych yn gofalu amdano.
- Ysgrifennwch yn glir mewn inc.
- Atebwch bob cwestiwn sy'n berthnasol i chi a'ch partner, os oes gennych un, ac anfonwch yr holl ddogfennau rydym yn gofyn amdanynt.
- Os na allwch wneud hyn, cysylltwch â ni, ond efallai y bydd unrhyw fudd-dal y gallai fod gennych hawl i'w gael yn cael ei oedi.

**i**

**Os bydd angen help arnoch i lenwi unrhyw ran o'r ffurflen gais hon ffoniwch y Llinell Ymholiadau Budd-daliadau ar 0800 88 22 00.**

Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu eich clyw gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio ffôn testun ar **01772 562202** neu ddefnyddio'r rhagddodiad typetalk **18001**.

Nid yw ein gwasanaeth ffôn testun yn derbyn negeseuon testun o ffonau symudol.

Mae'r ffurflen hon ar gael mewn

- **print bras**, neu
- **braille**.

Ffoniwch **01253 856 123**.

## Amdanoch chi – y gofalwr

Atebwch y cwestiynau ar y ffurflen hon mewn LLYTHRENNAU BRAS

Teitl, er enghraifft  
Mr, Mrs, Miss, Ms

Cyfenw neu enw teuluol

Pob enw arall yn llawn

Pob cyfenw neu enw  
teuluol arall rydych wedi  
eu defnyddio neu gael eich  
adnabod wrthynt

Rhif Yswiriant Gwladol (YG)

| Llythrennau          |                      | Rhifau               |                      |                      |                      |                      | Llythyren            |
|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|
| <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> |

Gallwch gael hwn o'ch cerdyn rhif YG, llythyrau am fudd-daliadau, sliplau cyflog neu ffurflen P60. Os nad oes gennych rif YG, neu os oes gennych un sy'n dechrau â TN neu ZZ, cysylltwch â'r Ganolfan Byd Gwaith. Os na fyddwch yn rhoi eich rhif YG, efallai y bydd unrhyw fudd-dal y gallai fod gennych hawl i'w gael yn cael ei oedi.

## Amdanoch chi – y gofalwr parhad

**Dyddiad geni**

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---------|-----|----------|
| /       | /   |          |

**Cyfeiriad**

|          |  |  |  |  |  |  |  |  |
|----------|--|--|--|--|--|--|--|--|
|          |  |  |  |  |  |  |  |  |
|          |  |  |  |  |  |  |  |  |
|          |  |  |  |  |  |  |  |  |
| Cod post |  |  |  |  |  |  |  |  |

**Rhif ffôn yn ystod y dydd**  
lle y gallwn gysylltu â chi neu adael neges. Cofiwch gynnwys y cod deialu

|  |  |
|--|--|
|  |  |
|--|--|

Os oes gennych anawsterau gyda'ch lleferydd neu'ch clyw  ac am i ni gysylltu â chi drwy ffôn testun, ticiwch yma.

**Rhif ffôn symudol**

|  |
|--|
|  |
|--|

**Beth yw eich statws priodasol neu bartneriaeth sifil?**

sengl  wedi gwahanu

priod neu bartner sifil  wedi ysgaru neu

Mae *partner* yn golygu

- person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu

byw gyda phartner  diddymu

- bartner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.

gweddw neu'n bartner sifil sydd wedi goroesi

### Eich Lwfans Gofalwr

**Pryd rydych am i'ch cais am Lwfans Gofalwr ddechrau?**

Mae'n rhaid i chi roi'r union ddyddiad neu gall eich cais gael ei oedi.

Os na fyddwch yn rhoi dyddiad ni allwn dderbyn eich cais a byddwn yn dychwelyd y ffurflen hon atoch.

| Diwrnod | Mis | Blwyddyn |
|---------|-----|----------|
| /       | /   |          |

Gwnewch nodyn o'r dyddiad hwn gan y byddwn yn gofyn i chi amdano eto yn ddiweddarach.

Enghraifft o union ddyddiad

|    |   |    |   |      |
|----|---|----|---|------|
| 16 | / | 08 | / | 2006 |
|----|---|----|---|------|

Os ydych yn byw yng Nghymru ac yr hoffech i ni gysylltu â chi yn Gymraeg, ticiwch y blwch hwn.

**i** I gael rhagor o wybodaeth darllenwch **dudalen 6** o'r **Nodiadau**.

## Amdanoch chi – y gofalwr parhad

Beth yw eich cenedligrwydd?

Er enghraifft, Prydeinig

A oes gennych basbort  
Tramor Prydeinig?

Os oes gennych basbort  
Prydeinig safonol, ticiwch Na.

Na

Oes  Ceir gwahanol fathau o basbortau Tramor Prydeinig.  
Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â'ch pasbort.

Ydych chi wedi bod yn  
byw yn y Deyrnas Unedig  
erioed?

Na  Ewch i'r cwestiwn nesaf.

Ydw  Ewch i **Ynglŷn a'ch partner.**

Ydych chi'n byw yn y  
Deyrnas Unedig ar hyn o  
bryd?

Na  Byddwn yn cysylltu â chi ynglŷn â hyn.

Ydw  Ewch i'r cwestiwn nesaf.

Pryd y gwnaethoch gyrraedd  
y Deyrnas Unedig?

 /  / 

O ba wlad rydych wedi  
dod?

Ydych chi'n bwriadu  
dychwelyd i'r wlad honno?

Na

Ydw  Dywedwch pryd

 /  / 

Beth yw'r rhif cyfeirnod  
fisa a ddangosir yn eich  
pasbort?

2 lythyren ac yna 6 rhif yw  
hwn fel arfer, er enghraifft  
AB123456. Nid eich rhif  
pasbort ydyw.

Os ydych yn credu bod unrhyw fanylion personol eraill y dylem  
wybod amdanynt, er enghraifft, enwau neu gyfeiriadau  
blaenorol, dywedwch wrthym amdanynt ar **dudalen 26**.

## Ynglŷn a'ch partner

Beth yw eich statws  
priodasol neu bartneriaeth  
sifil?

sengl

wedi gwahanu

priod neu  
bartner sifil

wedi ysgaru neu bartneriaeth  
sifil wedi'i diddymu

byw gyda phartner

gweddw neu'n bartner  
sifil sydd wedi goroesi

Mae *partner* yn golygu

- person rydych yn briod â hwy neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn briod â hwy, neu
- bartner sifil neu berson rydych yn byw gyda hwy fel petaech yn bartneriaid sifil.

## Ynglŷn a'ch partner parhad

**Ydych chi wedi cael partner ar unrhyw adeg ers y dyddiad rydych am i'ch cais ddechrau?**

Os ydych chi wedi gwahanu oddi wrth eich partner ers y dyddiad rydych am i'ch cais ddechrau, mae angen i ni gael gwybod am ei fanylion o hyd.

Na  Ewch i dudalen 5.

Ydw  Pryd gwnaeth eich partner ymuno â'ch cartref?

|   |   |
|---|---|
| / | / |
|---|---|

**Ydych chi wedi gwahanu oddi wrth eich partner ers y dyddiad rydych am i'ch cais ddechrau?**

Na

Ydw  Pryd y gwnaethoch wahanu?

|   |   |
|---|---|
| / | / |
|---|---|

**Teitl eich partner, er enghraifft Mr, Mrs, Miss, Ms**

**Eu cyfenw neu enw teuluol**

**Ei enwau eraill yn llawn**

**Pob cyfenw neu enw teuluol arall y mae wedi eu defnyddio neu wedi cael ei adnabod wrthynt**

**Eu rhif Yswiriant Gwladol (YG)**

Llythrennau Rhifau Llythyren

|                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |
|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|
| <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> |
|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|

Gallwch gael hwn oddi ar ei gerdyn rhif YG, llythyrau am fudd-daliadau, slipiau cyflog neu ffurflen P60. Os na fyddwch yn nodi ei rif YG i ni, efallai y bydd unrhyw fudd-dal y gallai fod gennych hawl i'w gael yn cael ei oedi.

**Ei ddyddiad geni**

Diwrnod Mis Blwyddyn

|   |   |
|---|---|
| / | / |
|---|---|

**Ei gyfeiriad**  
os yw'n wahanol i'ch un chi

|          |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |
|----------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|
|          |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |
|          |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |
|          |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |
| Cod post | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> |

**Beth yw ei genedligrwydd?**  
Er enghraifft, Prydeinig

## Y gofal rydych yn ei ddarparu

**Dywedwch wrthym am y person rydych yn gofalu amdano.**

Bydd hyn yn ein helpu i ddelio â'ch cais yn fwy cyflym.

**Teitl**, er enghraifft

Mr, Mrs, Miss, Ms

**Ei gyfenw neu enw teuluol**

**Ei enwau eraill yn llawn**

**Ei rif Yswiriant Gwladol (YG)**

Llythrennau

Rhifau

Llythyren











Gallwch gael hwn oddi ar ei gerdyn rhif YG, llythyrau am fudd-daliadau, slipiau cyflog neu ffurflen P60.

Mae gan blant 16 oed ac iau rifau YG. Gellir dod o hyd i rif YG y plentyn ar lythyrau Lwfans Byw i'r Anabl. Dyna yw'r rhif cyfeirnod.

Bydd hyn yn ein helpu i ddelio â'ch cais yn fwy cyflym.

**Ei ddyddiad geni**

Diwrnod

Mis

Blwyddyn

 /  / 

**Ei gyfeiriad**

Nid oes rhaid i chi fod yn byw yn yr un cyfeiriad â'r person rydych yn gofalu amdano.

|          |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |
|----------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|----------------------|
|          |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |
|          |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |
|          |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |                      |
| Cod post | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> | <input type="text"/> |

